# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-08-10)

**Dyddiad: 18 Mawrth 2010**
**Amser: 13.00 – 15.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mike German, Dwyrain De Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Leanne Wood, Canol De Cymru
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Meriel Singleton, Clerc
Ryan Bishop, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Dan Morris, Gweithiwr Cefnogi Cymru, Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol
Ben Raskin, Cynrychiolydd Garddwriaeth, Cymdeithas y Pridd
Craig Mitchell, Swyddog Polisi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
David Morris, Rheolwr Tir a Chefn Gwlad, Cyngor Dinas Casnewydd
Lyn Davies, Rheolwr Golygfa Stryd, Cyngor Sir Conwy
Nicola Ellis, Swyddog Dylunio'r Tirlun, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Martin Howorth, Rheolwr Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

### Eitem 2: Ymchwiliad i ddarpariaeth rhandiroedd yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth – Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol a Chymdeithas y Pridd

2.1

Croesawodd y Cadeirydd Dan Morris a Ben Raskin i'r cyfarfod a'u gwahodd i wneud sylwadau agoriadol. Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau i'r tystion.

2.2 Cytunodd Dan Morris i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor am amwyseddau canllawiau cynllunio o ran caniatáu datblygu rhandiroedd o dir amaeth.

2.3 Cytunodd Ben Raskin i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y cynllun rheoli rhandiroedd a gaiff ei ariannu gan y wladwriaeth ar gyfer pobl hyn yn Sbaen.

### Eitem 3: Ymchwiliad i ddarpariaeth rhandiroedd yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Sir Conwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Craig Mitchell, David Morris, Lyn Davies, Nicola Ellis a Martin Howorth i'r cyfarfod a'u gwahodd i wneud sylwadau agoriadol. Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r tystion.

3.2 Cytunodd David Morris i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am ddatblygu'r cynllun rhandiroedd cymunedol yng Nghasnewydd.

3.3 Cytunodd Craig Mitchell i ddarparu'r canlynol:

Ffigurau gwariant awdurdodau lleol ar randiroedd a'r incwm a ddaw ohonynt;

Byddai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgor Tyfu Bwyd yn y Gymuned;

Enghreifftiau eraill o erddi a gaiff eu rhannu o ran pobl hyn;

Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran y cynllun tarddiad lleol, Bwyd a Diod yng Nghymru

## Eitem 4: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5 a 6

4.1 Gwnaeth y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(vi), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn trafod materion yn ymwneud â busnes mewnol.

4.2 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## Eitem 5: Ystyried adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar ddyfodol ucheldiroedd Cymru

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Ddyfodol Ucheldiroedd Cymru

## Eitem 6: Trafodaeth ar fynediad i ddwr mewndirol a'r flaenraglen waith

6.1 Trafododd y Pwyllgor ei ymchwiliad – Mynediad i Ddwr Mewndirol a'i flaenraglen waith